



Partneriaeth Rheilffordd  
Cymunedol Dyffryn Conwy ac  
Arfordir Gogledd Orllewin Cymru

Conwy Valley and North West  
Wales Coast Community Rail  
Partnership

# Adroddiad Blynyddol 2022/23

**Mai 2023**

---

**Partneriaeth Rheilffordd Cymunedol Dyffryn  
Conwy ac Arfordir Gogledd Orllewin Cymru**

**Awdur: Claire Williams**  
**Swyddog Rheilffyrdd Cymunedol**





## Y Bartneriaeth – Pwy ydym ni a beth yw ein nodau

Croeso i Bartneriaeth Rheilffordd Gymunedol Dyffryn Conwy a Llinell Arfordir Gogledd Orllewin Cymru.

Mae ein Partneriaeth Rheilffordd Gymunedol wedi'i hachredu gan y Rhwydwaith Rheilffyrdd Cymunedol (Community Rail Network), Yr Adran dros Drafnidiaeth a Llywodraeth Cymru. Mae Mr Philip Evans, Cadeirydd, a Haf Jones, Is-gadeirydd, yn eich croesawu i'r adroddiad blynyddol hwn sy'n tynnu sylw at ein gwaith i gysylltu cymunedau â'u rheilffyrdd.

Mae aelodau ein partneriaeth yn cynnwys Trafnidiaeth Cymru, Avanti, Network Rail, yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig, Parc Cenedlaethol Eryri, Cyngor Conwy, Cyngor Gwynedd, cynrychiolwyr y cynllun Mabwysiadu Gorsaf, Creu Menter, Community Rail Network a Boots on the Ground.

Cyflawnir y cynllun gweithgareddau busnes gan yr holl aelodau, o dan arweiniad y Swyddog Rheilffyrdd Cymunedol. Nod ein cynllun yw:

1. Rhoi llais i'r gymuned
2. Hyrwyddo teithio iach cynaliadwy a hygyrch
3. Dod â chymunedau at ei gyllydd a chefnogi amrywiaeth a chynhwysiant
4. Cefnogi datblygiad cymdeithasol ac economaidd

Mae Partneriaeth Rheilffordd Gymunedol Dyffryn Conwy ac Arfordir Gogledd Orllewin Cymru yn cynnwys y rheilffyrdd o Flaenau Ffestiniog i Landudno ac o Gyffordd Llandudno i Gaergybi.







Wrth ysgrifennu'r cyflwyniad byr hwn, mae'n briodol fy mod yn cyfeirio at rai unigolion allweddol sydd wedi cyrraedd a gadael. Mae Karen Williams, ein Swyddog Rheilffyrdd Cymunedol, wedi gadael i ymgymryd â swydd arall yn lleol ac mae Anwen Daniels, Blaenau Ffestiniog, ein His-gadeirydd, wedi rhoi'r gorau i'w rôl ar ei hymddeoliad o Gyngor Gwynedd. Bydd yn chwith iawn hebddynt ac rydym yn ddiolchgar iawn iddynt am eu gwaith a'u cefnogaeth frwd i'r Bartneriaeth. Mae'n bleser croesawu Claire Williams, ein Swyddog Rheilffyrdd Cymunedol newydd. Mae gan Claire brofiad

helaeth o reoli digwyddiadau yn lleol ac mae hi wedi ymgartrefu'n gyflym yn ei swydd newydd. Haf Jones yw'r is-gadeirydd newydd, ac mae hi'n adnabyddus iawn yn yr ardal fel Swyddog Datblygu Gwledig CBS Conwy. Rwyf wedi gweithio gyda Haf ar y prosiect Fflecsi Bws, ac rwy'n gwybod y bydd hi'n llysgennad gwych i'r Bartneriaeth a thrafnidiaeth gyhoeddus yn gyffredinol.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi bod yn hyrwyddo cysylltiadau gyda mudiadau lleol a chynrychiolwyr cymunedol, yn enwedig yng ngorllewin yr ardal. Bydd y gwaith hwn yn parhau dros y flwyddyn i ddod.

Ym mis Ionawr, cafodd trenau newydd Dosbarth 197 Trafnidiaeth Cymru eu lansio'n swyddogol gan Lesley Griffiths AS, Gweinidog Gogledd Cymru, yng ngorsaf drenau Llandudno. Awgrymwyd enw'r uned newydd sef "Happy Valley" gan ddisgybl o Ysgol Tudno, Llandudno. Daeth llawer o bobl i'r seremoni ac roedd yn braf gweld cynifer o blant ysgol yno. Rydym yn edrych ymlaen i weld y trenau 197 ar reilffordd Dyffryn Conwy yn y dyfodol agos.

Thema allweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf oedd diogelwch ar y rheilffyrdd. Er mwyn codi ymwybyddiaeth am y mater hwn, yn enwedig ymhlith pobl ifanc, rydym wedi cydweithio ag ysgolion yng Nghaergybi a Chonwy gan roi cyfle iddynt gyfleu negeseuon am ddiogelwch yn y gorsafoedd. Fel rhan o'r gwaith hwn rydym wedi gweithio'n agos gyda Network Rail a'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig; ein gobaith yw y bydd y fenter hon yn parhau y flwyddyn nesaf.

Un o'r profiadau mwyaf cadarnhaol rwyf yn ei gael yw dod i gysylltiad â'r mabwysiadwyr gorsafoedd ar draws yr ardal. Mae'r grwpiau dibynadwy a gweithgar hyn yn rhoi cyffyrddiadau arbennig i lawer o'n gorsafoedd. Rydym yn ddiolchgar iawn iddynt am eu hamser a'u hymroddiad parod fel gwirfoddolwyr drwy gydol y flwyddyn.

Philip C Evans JP FloL

Cadeirydd



## Swyddog Rheilffyrdd Cymunedol Newydd - Claire Williams



Cefais fy mhenodi yn Swyddog Rheilffyrdd Cymunedol newydd Partneriaeth Rheilffordd Gymunedol Dyffryn Conwy ac Arfordir Gogledd Cymru ym mis Ionawr 2023.

Trwy gysylltu ac annog cydweithio rhwng busnesau a mudiadau yn ein cymunedau lleol, gallwn helpu'r cymunedau hyn i gydweithio'n well ar amrywiaeth eang o faterion cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol. Rwy'n edrych ymlaen yn fawr iawn i weithio gyda chymunedau ar draws y rhanbarth.

Rydw i wedi bod yn gweithio yn y gymuned leol ers blynnyddoedd lawer, gyda'r Strafagansa yn Llandudno. Rwy'n edrych ymlaen i ddod â'm profiad ym maes digwyddiadau, ymgysylltu cymunedol, a chydweithio â sefydliadau allanol, i'r swydd hon. Rydw i eisoes wedi mynychu digwyddiad ar gyfer Swyddogion Rheilffyrdd Cymunedol newydd gyda Community Rail Network, cymryd rhan mewn deuddydd o hyfforddiant gwerth cymdeithasol, a TrainEd.





# Prosiectau 2022-23


## Cronfa'r Grant Cydnerthedd Cymunedol

Ym mis Medi 2022, lansiodd Partneriaeth Rheilffordd Gymunedol Dyffryn Conwy ac Arfordir Gogledd Cymru a Trafnidiaeth Cymru yr ail rownd o geisiadau ar gyfer Arian Grant Cymunedol gyda'r nod o wella cydnerthedd a chynaliadwyedd mudiadau cymunedol. Roedd hyd at £1,000 ar gael i grwpiau cymunedol sy'n gweithredu o fewn pum milltir i orsafoedd ar y rheilffyrdd o Landudno i Flaenau Ffestiniog ac o Gyffordd Llandudno i Gaergybi. Aseswyd ceisiadau ar sail amrywiaeth eang o weithgareddau a allai effeithio ar y gymuned a sut byddai'r arian yn cynnal gweithgareddau a gwasanaethau yn y dyfodol. Cafodd y gronfa ei gweinyddu gan Mantell Gwynedd ac ym mis Rhagfyr 2022 rhannwyd cyfanswm o £10,878.38 rhwng y mudiadau cymunedol canlynol:

- Gweithgareddau I'r Byddar Sir Conwy
- Clwb Tu allan I'r Ysgol Deganwy
- Ymddiriedolaeth Jon Egging
- Clwb Pêl-droed Tref Llanfairfechan
- MaesG Showzone
- Blaenau Youth Shedz
- Gofal Canser Tenovus
- Cylch Meithrin Parc y Bont
- Cyngor Ysgol Llanfairpwllgwyngyll
- Seren Ffestiniog Cyf



*“Roeddwn yn arfer mwynhau gweithgareddau chwaraeon ond ar ôl rhoi'r gorau iddyn nhw am wahanol resymau roeddwn yn chwilio am her newydd. Mae canu'n cyfuno ymarfer corff (rheoli anadlu) ac ymarfer meddyliol. Rydw i wedi cyfarfod pobl newydd, canu'n gyhoeddus, cytuno i fynd ar daith i Gaerdydd, ac rwy'n cael hwyl bob wythnos. Rydw i wrth fy modd.”*







---

## Grant Cymunedol Cymunedau Mwy Gwyrdd

Derbyniwyd arian ychwanegol gan Trafnidiaeth Cymru ar gyfer grwpiau cymunedol sy'n gweithredu o fewn milltir i orsafoedd ar Reilffyrdd Dyffryn Conwy ac Arfordir Gogledd Cymru, ac sy'n canolbwyntio ar 'Brosiectau Gwyrdd'. Roedd cyfle iddynt wneud cais am hyd at **£500** i ddarparu prosiectau gwyrdd, fel creu cynefin, lloches i bryfed a rhandiroedd. Roedd ceisiadau'r ddau fudiad canlynol yn llwyddiannus:

- Partneriaeth Maesgeirchen
- Seren Ffestiniog Cyf

*“BLS yw prif ddull cyfathrebu rhai o’n haelodau, a Saesneg yw eu hail iaith. Gall hyn greu anawsterau i aelodau yn eu bywydau bob dydd. Mae’r boreau coffi a’r clinig galw heibio yn wasanaeth gwerthfawr iawn i’n cymuned, gan ei fod yn cryfhau ein cysylltiadau ac yn rhoi cyfle i ni wneud penderfyniadau gwybodus, gwella ein cydnherthedd a chael adnoddau i baratoi ar gyfer heriau’r dyfodol.”*



## Teithiau Cerdded Lles ym myd Natur


Rydym wedi cydweithio â Mind Conwy i gynnal 4 taith gerdded gylchol er budd lles. Nick o Dîm Lles Mind Conwy oedd yn arwain y teithiau cerdded o'r gorsafoedd ar hyd llinell Dyffryn Conwy ac Arfordir Gogledd Orllewin Cymru. Ymunodd nifer o arbenigwyr ar feysydd fel archaeoleg â'r teithiau hefyd.

Roedd pob taith yn canolbwyntio ar **'y 5 ffordd at les'** ac ymwybyddiaeth ofalgar mewn coetiroedd yng nghanol byd natur. Wrth i ni gerdded, cawsom gyngor gan Nick ar sut i gynllunio taith gerdded a sut i gynnwys y 5 ffordd at les, sef cysylltu, rhoi, bod yn sylwgar, dal ati i ddysgu, a bod yn fywiog, yn ein bywydau bob dydd. Camau hawdd sy'n syml ac yn effeithiol iawn.

Gan fod y teithiau yn gylchol roeddem yn gorffen pob taith yn y man cychwyn. Roedd y teithiau tua 5-6 milltir o hyd a'r amseroedd dechrau yn amrywio, yn dibynnu ar amserlenni'r trenau neu'r bysiau. Y lleoliadau oedd: Gorsaf Reilffordd Conwy, Gorsaf Reilffordd Gogledd Llanrwst, Gorsaf Fysiau Rhaeadr Fawr Abergwyngregyn, Gorsaf Reilffordd Betws y coed.



*"Rwy'n argymhell y teithiau uchod yn fawr iawn. Rwyf wedi bod ar bob un o'r teithiau dros y ddwy flynedd ddiwethaf ac mae dau o'm ffrindiau yn cymryd rhan hefyd erbyn hyn. Mae Nick yn arweinydd gwych. Diolch yn fawr iddo am ei waith ymchwil trylwyr wrth drefnu'r teithiau hyn."*



*Each Mae'r teithiau mewn lleoliadau diddorol a phrydferth iawn, a phob un yn dechrau ger gorsaf reilffordd neu safle bws, os nad y ddau. Rydyn ni'n oedi'n aml i fwynhau'r golygfeydd a sgwrsio. Yn aml, bydd arbenigwyr lleol yn ymuno â ni i siarad am hanes, anifeiliaid, adar, planhigion neu'r coed. Rydyn ni'n cael egwyl i eistedd a mwynhau ein cinio, sgwrsio a chyfarfod ffrindiau newydd. Mae pob taith yn para tua 4 awr, 5/6 milltir. Rwy'n mawr obeithio y bydd y teithiau'n parhau eleni."*

## Jiwbili'r Frenhines

Cafodd gorsaf drenau Llandudno ei thrawsnewid yn wlad hud i ddathlu Jiwbilí Platinwm y Frenhines. Ymunodd tua 50 o wirfoddolwyr a chyfeillion Partneriaeth Rheilffordd Gymunedol Dyffryn Conwy ac Arfordir Gogledd Cymru â Trafnidiaeth Cymru yng ngorsaf Llandudno i fwynhau te prynhawn, adloniant, a sioe hud gan yr Hetiwr Hurt!

Cafodd cannoedd o deithwyr Trafnidiaeth Cymru eu cyfarch gan y gwningen wen, Cath Caer, brenhines y calonnau ac wrth gwrs Alys. Roedd pawb, gan gynnwys Rheolwr yr Orsaf Andrew Baker, yn gwenu mwy na'r gath!

Roedd y teithwyr wrth eu bodd â'r adloniant a daeth pobl leol i'r orsaf i ofyn am ragor o ddigwyddiadau yn ystod y flwyddyn.

Dyma enghraifft o gydweithio gwybch gan y tîm rheilffyrdd cymunedol, Jessica Wragg o'r 3 Sir Gysylltiedig a Sian Jones Llysgennad Rheilffyrdd Cymunedol, Trafnidiaeth Cymru.







## Negeseuon Diogelwch

### Gogledd Llanrwst

Mae gwaith celf wedi'i ddylunio a'i greu gan ddisgyblion Ysgol Dyffryn Conwy bellach i'w weld yng ngorsaf drenau Gogledd Llanrwst.

Gweithiodd Partneriaeth Rheilffordd Gymunedol Dyffryn Conwy ac Arfordir Gogledd Orllewin Cymru gyda'r Artist Graffiti, Andy Birch (Dime One North Wales Graffiti Art Murals) a disgyblion blwyddyn 10 ac 11 Ysgol Dyffryn Conwy i ddylunio darn o gelf ar thema diogelwch y rheilffyrdd.

Cafodd y gwaith celf ei osod yn lle hen ddarn o gelf a oedd wedi'i ddifrodi yn y gysgodfan yng ngorsaf Gogledd Llanrwst. Diolch i Goleg Llandrillo am gyfrannu'r ffrâm i ddiogelu'r gwaith celf. Roedd yn gyfle i'r bobl ifanc ddatblygu sgiliau newydd a chael hwyl, gan ddysgu am ddiogelwch ar y rheilffyrdd ar yr un pryd.





## Conwy



Fydd neb yn tresmasu ar y rheilffyrdd yng Nghonwy ar ôl i ddisgyblion Ysgol Aberconwy weithio gydag Andy Birch (Dime One North Wales Graffiti Art Murals), i drawsnewid y gysgodfan yn ddarn o gelf sy'n cyfleu neges bwysig am ddiogelwch ar y rheilffyrdd.

Nod y prosiect, mewn partneriaeth gyda Trafnidiaeth Cymru, yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig, gyda nawdd gan Bartneriaeth Rheilffordd Gymunedol Dyffryn Conwy a Gogledd Orllewin Cymru, yw atal tresmasu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn gorsafoedd trenau.

*Dywedodd Andy Baker, Rheolwr Gorsafoedd Trafnidiaeth Cymru (Gogledd Orllewin Cymru), "Mae'n bwysig ein bod yn cysylltu â phobl ifanc mewn ffordd maen nhw'n ei deall. Roedd y prosiect hwn yn ffordd wych o gynnwys disgyblion Ysgol Aberconwy a chyflwyno neges am bwysigrwydd diogelwch ar y rheilffyrdd. Mae'n ddarn o gelf gwych. Gwnaeth disgyblion Ysgol Aberconwy argraff fawr arnaf, roedden nhw'n dangos diddordeb ac roedden nhw wedi meddwl o ddifrif am fater diogelwch, roedden nhw'n gwrtais ac yn ddymunol, ac yn glod mawr i'w rhieni a'r ysgol."*



*Dywedodd Mr Gerrard, Pennaeth yr ysgol "Llongyfarchiadau i bawb sydd wedi cymryd rhan yn y prosiect a diolch i chi am eich gwaith caled. Fel ysgol, roeddem yn falch iawn o'r cyfle i gymryd rhan yn y fenter bwysig hon a allai helpu i arbed bywydau."*



## Diwrnod Llyfr y Byd

Trefnwyd adloniant ar themâu amrywiol yn y gorsafoedd a'r llyfrgelloedd ar hyd Rheilffordd Dyffryn Conwy ac Arfordir Gogledd Orllewin Cymru.

- Yn Llandudno daeth awdur llyfrau plant lleol â chymeriadau ei llyfrau yn fyw wrth iddi ddarllen darn o'i llyfr a gyhoeddwyd yn ystod y cyfnod clo, Trixibelle.
- Roedd cyfle i glywed straeon Cymraeg yn llyfrgell Llanrwst.
- Yng ngorsaf drenau Bangor gwnaeth y plant fwynhau sioe hud.
- Yng Nghanolfan Ddiwylliannol Conwy cynhaliwyd sioe ar y thema môr-ladron.

Gwahoddwyd ysgolion ger y gorsafoedd i ddod i fwynhau'r adloniant. Nod y prosiect oedd dod â chymunedau at ei gilydd a chefnogi amrywiaeth a chynhwysiant, ynghyd â chefnogi datblygiad cymdeithasol. Trwy wahodd awdur a pherfformwyr lleol, gwnaethom hefyd gefnogi datblygiad economaidd. Ar draws y pedwar lleoliad cafodd dros 450 o blant gyfle i gymryd rhan. Gwnaethom gydweithio â gwasanaethau Llyfrgelloedd Conwy a Gwybodaeth i Deuluoedd Conwy i gyflwyno'r prosiect. Cyflwynodd Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd Conwy becyn gweithgareddau am ddim i bob plentyn yn lleoliadau Cyngor Conwy, ynghyd â phensiliau lliw, ac ati.



*"Roedd popeth yn wych, ac fe wnaeth y plant fwynhau eu hunain yn fawr! Diolch hefyd am y llyfrau a'r eitemau am ddim i'r plant."*

*"Roedd yr holl ddisgyblion wrth eu bodd yn ymweld â'r llyfrgell a gwrando ar y straeon. Roedd y gweithgaredd wedi'i drefnu'n dda ar gyfer y grŵp oedran a dywedodd y staff a'r disgyblion eu bod wedi mwynhau'n fawr iawn."*



*"Diolch am eich trefniadau y bore yma. Roedd yn wych!! Roedd y plant wrth eu bodd. Unwaith eto, diolch yn fawr iawn ..."*



## #GweithredoddCaredigDigymell

Yn 2023, un o'r pethau cyntaf a wnaeth Claire oedd nodi nifer o ddyddiadau lle gallai'r Bartneriaeth Rheilffordd Gymunedol wneud rhywbeth caredig, digymell i deithwyr ar y rheilffordd.



**Dydd Santes Dwynwen**

**Dydd Sain Ffolant**



*"Dim ond gair i ddweud diolch i chi am gynnig un o'ch bisgedi blasus i mi heddiw yng ngorsaf drenau Llandudno. Dydw i erioed wedi cael dim byd ar Ddydd Sain Ffolant, felly diolch am eich caredigrwydd."*



Roedd cyflenwad o nwyddau ar gael ar bob un o'r dyddiau uchod yn swyddfeydd tocynnau gorsafoedd Llandudno, Cyffordd Llandudno a Bangor. Bu'r Swyddog Rheilffyrdd Cymunedol yn rhoi eitemau i'r teithwyr ar y trenau hefyd.



**Dydd Gŵyl Dewi**



## Edrych i'r dyfodol 2023/24

Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda Trafnidiaeth Cymru, Avanti a sefydliadau eraill ar brosiectau yn y dyfodol.

Bydd tenant newydd yn dod i gaffi gorsaf Cyffordd Llandudno. Bydd Porters yn gyfrifol am redeg y caffi ac yn ei drawsnewid yn gaffi cymunedol newydd.

Bydd y ddwy rheilffordd yn dathlu sawl pen-blwydd pwysig. Mae Rheilffordd Arfordir Gogledd Cymru yn 175 oed eleni. Gorsaf Bangor (1 Mai), gorsaf Cyffordd Llandudno (1 Awst) a gorsaf Caergybi (1 Awst). Mae rheilffordd Dyffryn Conwy i Lanrwst yn 160 oed eleni hefyd.